# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd J Radcliffe** **Ward:Abercynffig**

**Plaid: Plaid Cymru**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Ebrill 2018. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Abercynffig ar 4 Mai 2018. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 34 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Rwyf wedi bod yn codi sawl mater gyda'r awdurdod ers cael fy ethol. Y prif faterion fu; sbwriel a gwastraff heb ei gasglu, y problemau cronig gyda pharcio anghyfreithlon, yn enwedig ger ysgolion, a draeniau wedi'u rhwystro. Rwyf wedi cyfarfod gyda swyddogion i drafod atebion hirdymor i'r parcio a byddaf yn parhau i weithio ar hyn.

Rwyf wedi bod yn gweithio gyda swyddfa'r post a nifer o fusnesau lleol i ailsefydlu swyddfa'r post yn y pentref, ac mae'r gwaith hwn yn parhau.

Rwyf hefyd wedi bod yn gweithio gyda thrigolion Pentre Felin a'r cyngor cymuned i wrthwynebu'r datblygiad tai arfaethedig newydd a helpu i sefydlu cymdeithas trigolion er mwyn sicrhau bod gan y gymuned lais cryfach mewn datblygiadau yn y dyfodol.

Rwyf hefyd yn y broses o gysylltu â'r bwrdd iechyd newydd arfaethedig ar gyfer yr ardal (Cwm Taf) er mwyn cael gwasanaethau meddyg teulu/gofal iechyd mwy a mwy priodol ar gyfer y ward, ac rwy'n gobeithio sicrhau cymorth ehangach ar gyfer hyn.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wrthi ar hyn o bryd yn trafod gyda sawl grŵp lleol sut y gallaf ddefnyddio'r gronfa gweithredu yn y gymuned yn y ffordd orau er mwyn helpu'r gymuned leol. Rwy'n gobeithio gallu defnyddio'r gronfa hon cyn bo hir er mwyn cefnogi grwpiau lleol.

Rwyf hefyd yn datblygu cynllun ar gyfer gwella llif y traffig a pharcio yn yr ardal, a byddaf yn gweithio gyda swyddogion ar hyn.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Rwyf hefyd ar y pwyllgor rhianta corfforaethol ac mae gennyf ddiddordeb brwd mewn gwella llesiant plant sy'n derbyn gofal, ac rwyf wedi gwneud sawl awgrym y mae'r awdurdod yn eu hystyried o ganlyniad i hyn. Drwy gydol fy amser yn y cyngor ac ar bwyllgorau rwyf bob amser wedi ceisio bod yn adeiladol a chynnig atebion, ac rwyf wedi bod yn barod i weithio gyda chynghorwyr o bleidiau eraill er mwyn cyflawni hyn.

**Y Cynghorydd J Radcliffe** **Dyddiad: 30/5/18**